M2.01

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 – 2030

## ARCHWILIAD CYHOEDDUS

**Sesiwn y Gwrandawiad Mater 2**

**Dydd Mawrth 13eg Ebrill 2021**

## Strategaeth y Cynllun

**Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion**

**Datganiad y Gwrandawiad gan Gyngor Sir y Fflint**

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

**19.03.21**

## Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 - 2030) Archwiliad Cyhoeddus

## Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 2 Strategaeth y Cynllun: Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

Lluniwyd y datganiad hwn gan Gyngor Sir y Fflint (CSFf) mewn ymateb i gwestiynau'r Arolygydd yn y gwrandawiad:

| **Mater Allweddol:**<br>**A yw'r strategaeth gyffredinol yn gydlynol ac yn seiliedig ar broses baratoi glir a chadarn? A yw'r strategaeth yn realistig ac yn briodol yng ngoleuni dewisiadau perthnasol eraill ac a yw'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?** |
|---|
| **Ymateb y Cyngor:**<br>1. Mae strategaeth gyffredinol y Cynllun yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cyd-destun strategol a lleol ar gyfer cynllunio yn yr ardal dros gyfnod amser y cynllun. Nodir hyn o baragraff 3.25 yn natganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau sy'n amlinellu cyd-destun y ddeddfwriaeth genedlaethol a'r polisi strategol lle ystyrir bod Sir y Fflint yn gwneud cyfraniad y tu hwnt i'r ardal leol i ffyniant a llesiant yng Nghymru, fel y'i diffinnir ymhlith pethau eraill ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (PCC10) a Chynllun Gofodol Cymru (CGC). Mae llawer o hyn yn cydnabod lleoliadau strategol Sir y Fflint yng nghyd-destun Gogledd Cymru, yn ogystal â bod yn borth i Loegr a marchnadoedd economaidd y Gogledd Orllewin, a rôl Sir y Fflint fel canolbwynt economaidd ar gyfer yr is-ranbarth ehangach.<br><br>2. Yn rhanbarthol, ac ar y cyd, mae Sir y Fflint yn rhan o nifer o ymrwymiadau a rennir sy'n gorgyffwrdd i wella nodweddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal yn ogystal â sicrhau bod ei chymunedau yn gallu elwa ar y pwyslais ar fuddsoddi, cefnogi ac amddiffyn y materion allweddol a phwysig hyn. Roedd Strategaeth Is-ranbarth Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Ddwyrain Cymru yn gosod y cyd-destun ar gyfer llawer o'r cydweithio hwn a ddatblygodd yn Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy (CMD), gwaith sy'n parhau i ganolbwyntio ar hybu'r ardal economaidd ehangach sy'n pontio'r ffin genedlaethol fel endid economaidd cyffiniol. Yn dilyn y strategaeth is-ranbarthol a luniwyd yn 2006, yn fwy diweddar mae CMD wedi llunio Prosbectws Twf yn cynnwys lleoliadau strategol allweddol yn Sir y Fflint, yn ogystal â phrosbectws buddsoddi mewn rheilffyrdd ategol, Trac Twf 360.<br><br>3. Yn bwysig iawn, mae Sir y Fflint hefyd yn rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru a gadarnhawyd gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020, ac sydd wedi sicrhau cyllid sylweddol gan y llywodraeth i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi buddsoddiad yn y rhanbarth i hybu cynhyrchedd economaidd a pherfformiad. Cafodd dyraniad safleoedd strategol allweddol y cynllun ym Mhorth y Gogledd a Warren Hall eu pennu yn unol â hyn ac yng nghyd-destun yr uchod ac, yn enwedig yn achos yr olaf o'r rhain, bydd y |

buddsoddiad seilwaith hwn yn gwella gallu'r safle hwnnw i gyflawni o fewn ffrâm amser y cynllun.

4. Mae'r dogfennau canlynol hefyd wedi dylanwadu ar gyd-destun y strategaeth a'r dull o'i pharatoi: Cynllun y Cyngor a Chynllun Glannau Dyfrdwy, yn ogystal ag Asesiad Llesiant y Cyngor a gynhaliwyd i gefnogi'r broses o drosglwyddo i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Yn amlwg, mae'r cynllun hefyd yn seiliedig ar broffil ystadegol o ddangosyddion allweddol yr ardal, ynghyd ag asesiad cefndirol cynhwysfawr o rai o'r dylanwadau allweddol ar y cynllun, a drafodwyd mewn cyfres o Bapurau Testun cryno a luniwyd ar gam cynnar ym mhroses y cynllun, ac a oedd yn deillio o asesiad o'r sail dystiolaeth a oedd dod i'r amlwg. Yn amlwg, mae'r cynllun hefyd wedi ystyried, yn ôl yr angen, Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd Llywodraeth Cymru, er bod y graddau y mae'r rhain yn cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu unrhyw fath o strategaeth gadarnhaol yn ddadleuol, o ystyried bod rhagolygon olynol (2011, 2014, a 2018) yn gyson yn rhagweld lefelau isel iawn o angen am dai y gallai'r cynllun ei fodloni'n effeithiol heb yr angen am safleoedd newydd. Ni chafodd y dull hwn ei ddilyn gan fod y strategaeth yn ceisio bod yn fwy cadarnhaol ac uchelgeisiol, yn enwedig gan mai dyma mae'r cyd-destun strategol yn gofyn amdano.

5. Mae'r amser ac ymdrech ychwanegol a gafodd ei fuddsoddi gan y Cyngor yn ystod y cam Negeseuon Allweddol ac wrth ymgynghori yn gynnar yn y cyfnod cyn-adnau, wedi helpu'r Cyngor i brofi pa drywydd y dylai'r cynllun ei ddilyn a sut dylid llunio'r strategaeth. O ganlyniad i'r gwaith hwn, a'r camau eraill o dan Reoliad 14, ymddangosodd nifer o faterion allweddol a materion sy'n sbarduno newid, a gefnogwyd gan farn gyffredin, sydd wedi'u nodi ym mharagraff 3.30 yn natganiad ysgrifenedig y Cynllun adnau. Heb eu hailadrodd, maent yn crynhoi'r cyd-destun strategol a'r angen i'r cynllun ymdrin mewn ffordd gadarnhaol â thwf swyddi ac uchelgais economaidd. Mae angen i'r cynllun hefyd gefnogi seilwaith gan gynnwys tai digonol i gynnal twf, lleoli datblygiad yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a chynnal lles drwy sicrhau bod ein hamgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael eu hamddiffyn a'u gwella.

6. Mae'r rhain yn eu tro wedi dylanwadu ar ddatblygiad Gwledigaeth y Cynllun a'r amcanion a ddatblygwyd gyda llawer o fewnbwn yn gynnar yn y broses gan aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid, yn ogystal ag aelodau etholedig. Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn diffinio ac yn esbonio ffocws y cynllun ac yn nodi'r cyd-destun o ran sut cafodd y bwriadau hyn eu trosi yn fframwaith polisi'r cynllun, ac i ba raddau mae cysylltiadau a pherthnasoedd y polisïau strategol hyn wedi'u nodi yn yr adran 'cyd-destun polisi' sy'n dilyn pob polisi.

**Cwestiwn a)**

**A yw strategaeth gyffredinol y CDLl yn gyson ag un yr awdurdodau cyfagos? Beth yw'r prif faterion trawsffiniol a sut aethpwyd i'r afael â'r rhain?**

**Ymateb y Cyngor:**

a.1 Er nad oes Canllaw Cynllunio Rhanbarthol cymeradwyedig ar gael ar gyfer Gogledd Cymru fel y cyfryw, ac mae Awdurdodau Lleol unigol hefyd ar gamau gwahanol iawn o ran datblygu, paratoi neu adolygu eu cynlluniau, mae strategaeth CDLl Sir y Fflint wedi ymddangos yn ystod ffrâm amser tebyg iawn i un Wrecsam, ac nid yw'n rhy bell y tu ôl i'n cymydog dros y ffin yng Ngorllewin Swydd Gaer. Y sir arall yng Ngogledd Cymru sy'n ffinio â Sir y Fflint yw Sir Ddinbych sydd yn y broses o adolygu ei CDLl cyntaf. Mae pob un o'r Awdurdodau Lleol hyn wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun, fel rhan o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, ac maent wedi cyflwyno sylwadau ar y cynllun. Wedi dweud hynny, nid oes yr un o'r awdurdodau hyn wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sylfaenol i'r cynllun ar y sail nad yw CDLl Sir y Fflint yn cyd-fynd â strategaethau eu cynlluniau, neu mae'n gwrthdaro â nhw.

a.2 Mae'n bosibl mai Sir y Fflint a Wrecsam sydd fwyaf tebyg o ran eu strategaethau, yn nhermau eu sefyllfa yn y broses CDLl, yn ogystal â nodweddion tebyg o ran y lefelau cyflogaeth a datblygu tai y mae'r ddau awdurdod yn eu cynnig. Mae'r ddau Gyngor wedi ceisio cydweithio ar ddarnau ar y cyd wrth gasglu tystiolaeth gefndir ac wedi gweithio gyda'i gilydd ar waith yn ymwneud â hyfywdra a thai fforddiadwy, adolygiadau tir cyflogaeth, a'u Hasesiadau o'r Farchnad Dai. O ran lefelau twf ar y cyd ym mhob cynllun, ystyrir eu bod yn weddol debyg ac mae'r bwriad ar gyfer twf yn y ddau awdurdod wedi'i nodi yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft, a Chynllun drafft Cymru'r Dyfodol a gyhoeddir yn fuan. Mae'r ddwy fersiwn o'r Cynllun Datblygu cenedlaethol yn canolbwyntio ar Wrecsam a Sir y Fflint fel lleoliad twf cenedlaethol, ac mae gofynion cronnus tai y ddau CDLl yn cyd-fynd yn gyffredinol â lefel blynyddol yr angen tai a nodir yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Mae'r ddau gynllun yn cymryd ymagwedd anghenion/hyfywdra tebyg wrth ddarparu tai fforddiadwy, ac mae'r ddau yn ceisio seilio eu strategaethau ar lefelau iach o dwf mewn swyddi, gan fodloni'r bwriad i'r ardal gael ei hystyried yn lleoliad twf cenedlaethol.

a.3 O ran Cynllun Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWAC), mae hwn yn ceisio sicrhau lefel uchelgeisiol o dwf tai gan annog rhyddhau tir llain las ger y ffin â Sir y Fflint. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod bod economi'r ardal yn weddol hunangynhaliol ac felly mae CWAC wedi cynllunio i raddau helaeth ar gyfer ei dwf economaidd ei hun. O dan y ddyletswydd i gydweithio bu'r Cyngor mewn cysylltiad gyda CWAC ar gam cynnar o'r CDLl wrth i CWAC symud ei gynllun ymlaen drwy'r camau statudol.

a.4 Fel y nodwyd eisoes, roedd Sir Ddinbych ymhlith un o'r cynharaf i fabwysiadu CDLl ac mae bellach yn y broses o adolygu'r cynllun ac wedi cyrraedd y cam o adolygu'r strategaeth a ffefrir. O ystyried hyn, a'r sefyllfa o ran CDLl Sir y Fflint, mae hyn yn rhoi cyfle i Sir Ddinbych alinio â strategaeth y CDLl.

a.5 O ran materion cysylltiedig/cyffredin: mae pob un o'r siroedd sy'n gymdogion i Sir y Fflint yn ceisio hybu twf drwy safleoedd strategol graddfa fawr yn eu cynlluniau ond, yn achos Sir y Fflint, mae'r safleoedd strategol yn y CDLl ymhellach ar y

blaen o ran datblygiad/y gallu i'w cyflenwi, oherwydd cymorth y Fargen Twf a diddordeb datblygwyr yn y prif safle ym Mhorth y Gogledd. Yn yr un modd, mae'r holl gynlluniau yn yr ardal ehangach yn ceisio cyflenwi gofynion tai sylweddol o fewn fframiau amser tebyg, ond mae taflwybr CDLl Sir y Fflint yn dangos bod y cynllun 'ar y trywydd' i gyflawni ar y gyfradd a gynlluniwyd wrth ddod i'r Archwiliad Cyhoeddus, ac am y cyfnod o 9 mlynedd a fydd yn weddill o'r cynllun ar ôl ei fabwysiadu.

a.6 Mae materion trawsffiniol eraill yn ymwneud â'r lefelau o ryngddibyniaeth economaidd a nodir gan symudiadau teithio i'r gwaith, yn canolbwyntio'n bennaf ar y berthynas rhwng Sir y Fflint a CWAC. Mae'r symudiadau hyn yn cynnwys cymudo ar gyfer swyddi gweithgynhyrchu yn bennaf, a symudiadau tebyg allan o'r sir i gyrraedd swyddi gwasanaethau a gwasanaethau ariannol dros y ffin. O ystyried lefelau cronnus gofynion tai yng nghynlluniau'r awdurdodau cyfagos, mae rhywfaint o bryder ynghylch capasiti digonol datblygwyr rhanbarthol i gyflenwi'r lefel hwn o ddarpariaeth, yn enwedig o ystyried ymrwymiad y rhan fwyaf o awdurdodau i ddatblygiadau tai sylweddol ar safleoedd maes glas strategol.

**Cwestiwn b)**
**Sut cafodd y materion allweddol eu dewis? A yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn mynd i'r afael â nhw yn uniongyrchol ac yn ddigonol? Beth yw'r berthynas rhwng y Materion Allweddol a'r Ffactorau sy'n Sbarduno Newid (para. 3.30) a'r heriau y mae'n rhaid cynllunio ar eu cyfer (para. 3.35)?**

**Ymateb y Cyngor:**

b.1 Cafodd y weledigaeth, materion ac amcanion eu datblygu fel rhan o weithdy Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a gynhaliwyd ar 27/02/15 LDP-KPD-KSF. Yna cafodd y rhain eu mireinio a'u cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad ar y ddogfen Negeseuon Allweddol ar ddechrau 2016 LDP-KSD-KM1 . Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys ymgynghori ar yr Adroddiadau o Archwiliadau'r Aneddiadau LDP-KSD-KM2 fel y nodwyd yn Adroddiad yr Ymgynghoriad LDP-KPD-CR1. Yn dilyn hyn, cafodd nifer o faterion allweddol a ffactorau sy'n sbarduno newid o'r ymarfer ymgynghori eu crynhoi o'r farn gyffredinol a gyflwynwyd, ac yna datblygwyd gweledigaeth i grynhoi'r materion hynny. Mae'r weledigaeth yn nodi prif nodau'r cynllun, yr Amcanion, ac yna'n rhoi mwy o fanylion er mwyn canolbwyntio'n fwy clir ar rolau defnydd tir y cynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn.

b.2 Cafodd y materion allweddol eu seilio hefyd ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Adroddiad Cwmpasu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Mawrth 2015 LDP-KPD-IIA , a'r 18 Papur Testun Cryno a luniwyd i grynhoi'r asesiad o'r sail dystiolaeth ar y pryd hwnnw.

b.3 Mae'r materion defnydd tir y mae angen i'r Cynllun fynd i'r afael â nhw yn deillio o ddadansoddiad o'r sail dystiolaeth, yr adolygiad o gynlluniau eraill a strategaethau ac ymgysylltu â phartneriaid, ymgyngoreion a rhanddeiliaid.

Cafodd materion cynaliadwyedd, gan gynnwys y rheini sy'n effeithio ar yr amgylchedd, eu nodi yn adran 5 o Adroddiad Cwmpasu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd LDP-KPD-IIASA ac mae Adroddiad yr Ymgynghoriad LDP-KPD-CR1 yn rhoi manylion am sut yr aethpwyd ati i ymgysylltu ar y materion hyn.

b.5 Lluniwyd Gweledigaeth y Cynllun a'r Amcanion Strategol i sicrhau bod y Cynllun yn rhoi sylw i'r holl faterion a nodwyd ac mae'n nodi sut byddir yn mynd i'r afael â'r rhain drwy'r system cynllunio defnydd tir. Mae'r amcanion wedi'u nodi'n glir yn y Cynllun adnau oherwydd ar ôl pob polisi yn y cynllun mae tabl sy'n nodi pa Amcan sy'n cael sylw gan y polisi hwnnw. Hefyd, mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Adroddiad Cwmpasu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn Atodiad D yn nodi sut mae amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn cydweddu yn fewnol ac mae'n nodi nad oes unrhyw amcanion anghymarus.

b.6 Mae'r materion allweddol a'r ffactorau sy'n sbarduno newid (para 3.30) wedi nodi'n uniongyrchol yr heriau y cynlluniwyd ar eu cyfer (para 3.35). Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi helpu i ddiffinio gweledigaeth ac amcanion y cynllun sydd, yn eu tro, yn gosod sylfaen i drosi bwriadau'r cynllun yn fframwaith polisi, ac mae adran cyd-destun y polisi ar gyfer pob polisi strategol yn nodi'r cysylltiadau â'r amcanion hyn.

**Cwestiwn c)**
**A yw'r weledigaeth yn briodol ac yn ddigon manwl?**

**Ymateb y Cyngor:**

c.1 Rôl gweledigaeth y CDLl yw diffinio prif bwrpas y Cynllun drwy adlewyrchu prif amcanion y Cynllun wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol (para 3.91 Llawlyfr y Cynllun Datblygu). Cafodd ei llunio er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol a nodwyd ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach. Mae'r weledigaeth yn adlewyrchu pa mor bwysig yw sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwahanol anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl. Mae themâu y tri amcan strategol sef Gwella Bywyd y Gymuned, Cyflawni Twf a Ffyniant, Diogelu'r Amgylchedd wedi'u hymgorffori yn y weledigaeth hon.

c.2 Daw'r cyfeiriad at "borth rhanbarthol'' o Baragraffau 16.1-16.6 Cynllun Gofodol Cymru sy'n cydnabod bod yr ardal yn ffrwyno sbardunau economaidd ar y ddwy ochr i'r ffin er budd Gogledd Ddwyrain Cymru a'r ardal ddaearyddol ehangach, i'r dwyrain a'r gorllewin.

c.3 Mae'r weledigaeth yn nodi bod y Sir yn ardal sydd wedi'i nodi ar gyfer buddsoddiad economaidd ond ei bod hefyd yn dymuno gwarchod y dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol a fyddai'n cynnwys adeiladau, tirwedd, bywyd gwyllt ac iaith. Ymgysylltwyd yn helaeth gyda rhanddeiliaid i lunio gweledigaeth ac amcanion y cynllun. Felly, ystyrir bod y weledigaeth yn briodol ac yn ddigon manwl.

**Cwestiwn d)**
**Beth yw goblygiadau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, lleoliad Sir y Fflint fel porth ar ffin genedlaethol? Sut rydych yn rhoi sylw i hyn yn y CDLl?**

**Ymateb y Cyngor:**

d.1 Ar sail cydweithio ac ymgysylltu ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos a'r sail dystiolaeth, y prif faterion trawsffiniol yw lefelau twf y Cynllun (tai a chyflogaeth); rôl strategol ardaloedd cyflogaeth allweddol Sir y Fflint a'r rhyng-berthnasoedd economaidd; seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys yr A55, A483, cysylltiadau rheilffyrdd a'r addewid o Metro Gogledd Cymru.

d.2 Mae'r strategaeth o hybu twf a buddsoddiad yn gyson â gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru, fel y'i trosglwyddwyd i Cymru'r Dyfodol, y Cynllun datblygu cenedlaethol. Mae'r lefelau twf cyflogaeth a thai yn eithaf cytbwys, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy drwy beidio â dadleoli cyflogaeth neu dai i awdurdodau ffiniol cyfagos (neu oddi wrthynt), o ystyried lefelau cymharol gadarnhaol cyflogaeth a thai hunangynhaliol yn yr ardal. Mae pob awdurdod yn darparu ar gyfer ei anghenion ei hun ac nid ydynt yn gwrthwynebu safbwyntiau'r lleill.

d.3 Mae heriau ynghlwm â lleoliad Sir y Fflint, fel y dengys yr enghreifftiau sy'n dilyn, ynghyd â sut bydd y cynllun yn helpu i'w lliniaru yng nghyd-destun yr hyn mae CWAC a Wrecsam a Sir y Fflint wedi ei gynllunio ar gyfer eu anghenion tai a chyflogaeth eu hunain, ac nid ydynt yn gwrthwynebu safbwyntiau'r lleill:

- mae lleoliad Sir y Fflint fel porth yn golygu bod lefelau eithaf uchel o deithiau cymudo i'r gwaith i mewn ac allan o'r ardal yn ddyddiol ond mae'r llifoedd allweddol yn cyfateb i'w gilydd yn yr ystyr bod gweithwyr yn dod i mewn ar gyfer swyddi gweithgynhyrchu, ac mae preswylwyr yn teithio pellteroedd cymharol fyr i CWAC ar gyfer swyddi yn y sector gwasanaethau ac ariannol. Hefyd, mae cydnerthedd economaidd ar ddwy ochr i'r ffin a gefnogir gan amcanion cyffredin e.e. cydweithio drwy'r CMD;
- Mae'r angen i gynnal lefel cyflogaeth uwch na Chymru a'r DU yn y sector gweithgynhyrchu wedi'i gefnogi gan y gydnabyddiaeth is-ranbarthol o rôl Sir y Fflint wrth ddarparu'r rolau hyn, a'r cyfleoedd i gynnal buddsoddiad yn y sector hwn;
- Creu digon o ddiddordeb i fuddsoddi mewn safleoedd strategol, o leoliadau sy'n cystadlu. Mae'r cynllun yn darparu safleoedd strategol sy'n barod ar gyfer eu datblygu sydd naill ai yn cael eu datblygu ac mae seilwaith allweddol wedi'i ddarparu, neu lle mae'r angen i ddarparu seilwaith i'w datblygu ymhellach yn cael ei gynnal a'i ariannu drwy'r Fargen Twf;
- Mae capasiti datblygwyr tai rhanbarthol i allu defnyddio a datblygu'r holl dai a ddynodwyd mewn cynlluniau yn yr is-ranbarth yn destun pryder, lle mae'r CDLl yn nodi safleoedd hyfyw, cynaliadwy, y gellir eu darparu ac sy'n ddeniadol i'r farchnad mewn ardaloedd lle mae galw amdanynt;

- Sicrhau bod digon o uchelgais yn strategaeth y CDLl i fodloni disgwyliadau polisi cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer Sir y Fflint fel ardal o dwf cenedlaethol;
- Sicrhau bod awdurdodau eraill yr is-ranbarth yn bodloni gofynion eu strategaethau eu hunain – mae hyn yn anodd gan nad oes gan y Cyngor a'r CDLl unrhyw reolaeth gwirioneddol drostynt, ond mae'r cynllun yn darparu ac yn dangos y gall ddarparu cyfraniad sy'n fwy na'r hyn sy'n gymesur i dwf a buddsoddiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- Alinio twf tai â thwf swyddi a sicrhau nad yw twf tai yn digwydd heb dwf economaidd. Derbynnir i raddau efallai y bydd angen i dwf tai arwain, yn enwedig ar safleoedd strategol er mwyn creu gwerthoedd a chreu diddordeb mewn buddsoddi ar draws safleoedd;
- Dibyniaeth ar safleoedd strategol pan mae awdurdodau lleol cyfagos hefyd yn cynllunio safleoedd mawr. Yn wahanol i lawer o safleoedd strategol tir glas rhanbarthol mawr, sy'n dibynnu ar yr angen am seilwaith mawr cyn y gellir datblygu arnynt, mae'r safleoedd strategol yn y CDLl yn barod ar gyfer datblygu yn yr ystyr eu bod naill ai'n cyflenwi datblygiad gan fod seilwaith mawr yn cael ei osod yno, neu bydd y seilwaith yn cael ei ariannu drwy arian y Fargen Twf.

d.4 Yn seiliedig ar yr uchod, mae hyn yn dangos bod yr ardal yn gwneud y mwyaf o'i lleoliad a'i manteision cystadleuol, a bod y cynllun yn helpu i gyflawni hyn.

**Cwestiwn e)**
**A yw'r CDLl yn mynd i'r afael ag iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth?**

**Ymateb y Cyngor:**

e.1 I'r graddau ag y mae'n bosibl i gynllun defnydd tir wneud hynny, mae dylanwadau allweddol cynllunio defnydd tir ar iechyd wedi cael eu gwreiddio yn y Cynllun drwy'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd a'r Asesiadau o Effaith ar Iechyd. Mae newid hinsawdd ac iechyd yn cael eu hystyried mewn ffordd holistaidd yn y Cynllun, gan adlewyrchu eu natur trawsffiniol.

e.2 Mae'r adran cyd-destun polisi sy'n dilyn pob polisi strategol yn nodi pa bolisïau sy'n gysylltiedig â'r amcanion a'r Nodau Llesiant perthnasol, a gwelir bod llawer o bolisïau'r Cynllun yn arwain at ganlyniadau sy'n berthnasol i'r amcanion hyn.

e.3 Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn rheolaidd yn ystod y cyfnod o lunio'r Cynllun i sicrhau cysondeb a chydweddoldeb â Strategaeth y Cynllun. Yn wir, mae BIPBC yn aelod o'r Fforwm Rhanddeiliad Allweddol. Ymgynghorwyd â BIPBC ar bob cam yn y broses o lunio'r Cynllun a rhoddwyd cyfle i'r Bwrdd gynnig sylwadau ar y Cynllun a oedd yn dod i'r amlwg ac i ddylanwadu ar ei ddatblygiad.

e.4 Mae fframwaith y Cynllun o bolisïau strategol a manwl wedi cael ei ddrafftio yn unol â Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 ac mae'n ceisio sicrhau datblygu mewn

lleoliadau cynaliadwy sy’n agos at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth lle mae cyfle i deithio mewn ffyrdd cynaliadwy, h.y. cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae’r polisïau yn ceisio sicrhau bod egwyddorion Creu Lleoedd yn cael eu gwireddu mewn datblygiadau newydd drwy ddarparu amgylcheddau byw o ansawdd uchel gyda rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a mannau agored. Dylai’r mesurau hyn gael dylanwad cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol i’r graddau y gall cynllun defnydd tir wneud hynny.

e.5 Mae’r Asesiad o Effaith ar Iechyd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac sydd i’w weld yn Atodiad 31 o Adroddiad yr Ymgynghoriad LDP-KPD-CR1c , yn dangos bod y Cynllun yn effeithiol wrth fynd i’r afael â’r amodau ffisegol ac amgylcheddol sy’n effeithio ar iechyd drwy ddylunio datblygiadau yn dda, sicrhau mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau, ysbytai a chyflogaeth a thrwy welliannau i ansawdd y ddarpariaeth tai a’r amgylchedd. Mae datblygu economaidd yn dod â budd i iechyd drwy ddarparu cyflogaeth a bydd darparu tai yn helpu i gadw gweithwyr medrus a graddedigion.

**Cwestiwn f)**
**Beth yw diben y polisïau strategol? A ydynt yn ddefnyddiol ac a oes modd eu rhoi ar waith yn nhermau rheoli datblygu?**

f.1 Mae gan y polisïau strategol rôl allweddol i drosi’r weledigaeth a’r amcanion strategol sy’n diffinio bwriadau’r cynllun yn fframwaith polisi sy’n gallu helpu i gyflawni’r bwriadau hyn yng nghyd-destun defnydd tir. Maent yn nodi gofynion allweddol y cynllun yn nhermau defnydd tir, ac yn helpu i ddiffinio’r ffordd y dylai bwriadau’r cynllun gyflenwi datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd.

f.2 Mae’r polisïau strategol yn nodi’n glir beth sydd ei angen er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy, gan nodi pa un o amcanion y cynllun maent yn ceisio ei gyflawni, gan nodi’r meysydd polisi cenedlaethol sy’n cael eu cyflawni gan y polisi hefyd, yn ogystal â pherthynas y polisi â’r Nodau llesiant. Maent hefyd yn gosod y cyd-destun eang ar gyfer y maes penodol hwnnw yn y cynllun, o nodi’r lefelau twf cyffredinol y mae’r cynllun yn ceisio eu darparu ar eu cyfer, i nodi’r ffordd y dylai datblygu economaidd ddigwydd, a’r dull gweithredu mewn perthynas â thwristiaeth, Diwylliant a Hamdden, newid hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd, a datblygu mwynau.

f.3 Yn olaf, dylai map y polisïau strategol sy’n gysylltiedig â’r polisïau rheoli datblygu manwl yn y cynllun gael eu darllen ar y cyd â’r polisi Strategol ac mewn perthynas â’r cynigion penodol sy’n cael eu hystyried.

f.4 Fel y cawsant eu hysgrifennu, gallant gael eu defnyddio at ddibenion rheoli datblygu (gan gynnwys rhai o’r enghreifftiau gyferbyn), yn ogystal â’u defnyddio ar y cyd â pholisïau mwy manwl ar gyfer cynigion datblygu mwy cymhleth, lle mae’n bwysig darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd.

| **Cwestiwn g)**<br>**Beth yw safbwynt y polisi ar y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)?** |
| --- |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>g.1 Mae'r gwaith o baratoi'r CDLl wedi golygu gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i nodi faint o Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) y rhagwelir y bydd yn cael ei golli fel rhan o'r broses o asesu safleoedd ymgeisiol ac amgen. Yn achos pob dynodiad sy'n golygu y bydd Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas o bosibl yn cael ei golli, trefnwyd arolwg ar-lein a gwiriwyd y canlyniadau gan Lywodraeth Cymru. Wrth nodi dyraniadau mae'r Cyngor wedi ceisio colli cyn lleied â phosibl o dir o'r fath.<br><br>g.2 Mae'r dull a ddefnyddiwyd wedi'i nodi ym Mhapur Cefndir 09 LDP-EBD-BP9 sydd wedi cael cefnogaeth mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. I grynhoi, datblygodd Llywodraeth Cymru ddull cychwynnol o ragweld faint o Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas fyddai'n debygol o gael ei golli ar Safleoedd Ymgeisiol a mireiniwyd hyn ymhellach i gael set o ganlyniadau gwell a mwy manwl. Ar ôl gweithio'n agos gydag Adran Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru, a gan gydnabod fod Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn agos at nifer o'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy yn Sir y Fflint, mae'r Cyngor wedi ceisio lleihau faint o'r tir hwnnw fydd yn cael ei golli. Lle defnyddiwyd tir o'r fath ar gyfer dyraniadau tai, mae'r safleoedd hyn yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy o'u hasesu yn erbyn yr holl feini prawf perthnasol ac ystyriaethau cynllunio eraill. Cefnogwyd y dull gweithredu hwn gan dîm Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru yn eu sylwadau ffurfiol ar y CDLl ar Adnau ac nid yw Adran Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu unrhyw un o'r dynodiadau yn y CDLl ar y sail bod colli unrhyw Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn annerbyniol. |
| **Cwestiwn h)**<br>**A yw'r Cynigion a'r Mapiau sydd wedi'u mewnosod yn gywir ac yn hawdd eu defnyddio?** |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>h.1 Ydyn. Mae'r Cynigion a'r Mapiau sydd wedi'u mewnosod yn gywir ac yn gynrychioliad hawdd ei ddefnyddio o gynigion y CDLl ac maent ar gael ar ffurf copi caled, pdf a fersiwn ar-lein ryngweithiol. Hefyd, wrth ymyl y fersiwn ar-lein o'r map cynigion, mae map cyfyngiadau ar wahân a luniwyd gan gartograffwyr profiadol sydd â phrofiad sylweddol o lunio mapiau cynigion cynlluniau datblygu. Wrth ddylunio'r mapiau ceisiwyd lleihau'r costau drwy gael cynllun unigol ar gyfer pob anheddiad, yn hytrach na fformat 'llyfr'. |
| **Cwestiwn i)**<br>**Yng ngoleuni'r amser fydd yn weddill os caiff y CDLl ei fabwysiadu yn 2021/2, a yw cyfnod y cynllun (2015-2030) yn briodol?** |

| |
|---|
| **Ymateb y Cyngor:**<br>i.1 Mae paragraff 7.4 yn Llawlyfr y CDLl, Rhifyn 3 yn nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gael o leiaf 10 mlynedd o gyfnod y Cynllun yn weddill ar adeg eu mabwysiadu ac 8 mlynedd yn unig fydd yn weddill os caiff y Cynllun ei fabwysiadu yn 2022. Fodd bynnag, o ystyried y gofyniad statudol i lunio Cynllun ac i gynnal cyflenwad tir ar gyfer tai i hwyluso a llywio twf yn yr ardal, y rôl bwysig y bydd y Cynllun yn ei chwarae i hwyluso twf cyflogaeth lleol a rhanbarthol, pwysigrwydd y Cynllun i ddarparwyr seilwaith a rhanddeiliaid a diffyg datblygiad diweddar, awgrymir bod mabwysiadu Cynllun priodol cyn gynted â phosibl yn hanfodol. Nid yw'r mater hwn yn effeithio ar gadernid sylfaenol y Cynllun ond bydd ceisio ymestyn cyfnod y Cynllun yn arwain at oedi pellach yn y broses o'i fabwysiadu. Mae Covid eisoes wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i fwrw ymlaen â'i gynllun yn y ffordd arferol ac mae wedi gosod nifer o heriau yn nhermau'r angen i barhau i sicrhau cynnydd gyda'r cynllun a lleihau'r oedi pellach a achoswyd gan y pandemig, gan effeithio ar yr amserlen flaenorol ar gyfer llunio'r cynllun. Oni bai am Covid, byddai'r cynllun wedi mynd yn ei flaen yn unol â'i gytundeb cyflenwi cymeradwyedig blaenorol, yna ar adeg ei fabwysiadu byddai wedi bod yn agosach at y canllawiau yn y llawlyfr sy'n ymwneud â chyfnod y cynllun sy'n weddill.<br><br>i.2 Mae'r materion hyn allan o reolaeth y Cyngor sydd wedi perfformio'n effeithiol i leihau'r oedi a achoswyd gan y Pandemig a chael y cynllun 'yn ôl ar y trywydd cywir'. Yn amlwg, drwy gytuno i amserlen y Cytundeb cyflenwi diweddaraf, mae'r cynllun yn dal i fod ar y trywydd cywir, nid oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon ynglŷn â'r agwedd hon o'r canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. O ystyried y sefyllfa bresennol, roedd y Cyngor yn ystyried na fyddai'n briodol i 'oedi a myfyrio' yn unol â'r canllawiau a roddwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ar wahanol gamau o adolygu'r cynllun, nac i ystyried 'ymestyn' cyfnod y cynllun o ystyried faint o waith, tystiolaeth newydd, y gallu i ymgysylltu â'r cyhoedd, a nodi safleoedd ychwanegol posibl, a fyddai wedi bod yn gysylltiedig ag ymestyn cyfnod y cynllun.<br><br>i.3 Mae hefyd angen ystyried yr amser y byddai hyn wedi ei ychwanegu at y disgwyliad y byddai Sir y Fflint yn cael cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer yr ardal, i'w ddefnyddio mewn cyd-destun a arweinir gan y cynllun wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Yn olaf, dylid ystyried y ffaith bod CDLl Sir y Fflint, yn wahanol i nifer o Gynlluniau Datblygu Lleol ar adeg yr Archwiliad, 'ar y trywydd cywir' o ran darparu ar gyfer twf tai ar y lefel sy'n ddisgwyliedig yn y Cynllun ac yn unol â'r llwybr tai adolygiedig. Mae'r dystiolaeth hon o allu'r cynllun i ddarparu'r hyn mae'n ei fwriadu yn cynnig mwy na digon o gamau lliniarol ar gyfer peidio â bodloni gofyniad y canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, ac o ystyried yr ymagwedd tuag at Gynlluniau Datblygu Strategol a ddaw yn y dyfodol agos yn sgil sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, mae'n llawer gwell bod gan Sir y Fflint a Wrecsam gynlluniau mabwysiedig yn eu lle er mwyn bod yn sail i'r broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol, a gosod y cyd-destun ar gyfer |

| |
|---|
| adolygiad o’r cynllun ar yr adeg cywir, gyda chyd-destun y Cynllun Datblygu Strategol yn sail iddo. Mae’n hanfodol hefyd bod y Sir yn dychwelyd i system a arweinir gan gynllun cyn gynted â phosibl neu bydd yn parhau i fod yn destun datlbygu ar hap a ‘Chynllunio drwy apêl’. |
| **Cwestiwn j)**<br>**Beth fydd statws Cynlluniau Lleoedd, pan fyddant yn cael eu llunio, a sut byddant yn gysylltiedig â’r CDLl?** |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>j.1 Cyngor Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (para 1.28) yw ‘Dogfennau anstatudol yw cynlluniau lleoedd. Gellir eu paratoi gan y gymuned leol ac maent yn adnodd grymus i hyrwyddo cydweithio i wella llesiant a chreu lleoedd’.<br>j.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 wedi egluro statws Cynlluniau Lleoedd yn y canllawiau ym mharagraff 1.28 sy’n nodi ‘Dylai Cynlluniau Lleoedd gefnogi’r gwaith o ddarparu polisïau’r CDLl a chânt eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol’. Mae canllawiau pellach wedi’u nodi ym mharagraff 5.7 yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3, lle mae Llywodraeth Cymru yn nodi ‘‘Dylai Cynlluniau Lleoedd gydymffurfio â’r cynllun datblygu a chael eu mabwysiadu gan yr ALl fel canllawiau cynllunio atodol i’r cynllun (pennod 9). Gallant lywio’r adolygiad CDLl, gael eu paratoi ochr yn ochr â CDLl, neu ar ôl ei fabwysiadu, cyn belled â bod ‘bachyn polisi’ digonol yn y cynllun. Ni allant ddyblygu neu gyflwyno polisi newydd, ac ni allant ddad-ddyrannu safleoedd a nodwyd yn y cynllun datblygu mabwysiedig. Nid yw Cynlluniau Lleoedd yn rhan o’r cynllun datblygu statudol; yn hytrach maent yn ychwanegu manylder at y cynllun mabwysiedig’’.<br><br>j.3 Ar ôl i’r CDLl gael ei fabwysiadu bydd cyfle i edrych ar y ffordd mae’r Cynlluniau Lleoedd yn eistedd yn y CDLl ac i ystyried eu rôl a’u perthynas â’r Cynllun mabwysiedig. |